

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 13eg o Fai 2014.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Elwyn Jones-Griffith (Cadair), Iwan Lloyd Williams, Menna Williams, Barry Bracegirdle, Ifan Glyn Jones, Dyfed Edwards (Cyngorydd Sir) – Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones, D Martin Williams – Talysarn; Eurig Wyn Evans – Nebo.

Gwr Gwadd – Dafydd Gareth Jones – Gwahoddwyd Gareth i'r cyfarfod i drafod y cais i gymeradwyo amodau Cae Efa Lwyd. Esboniodd i'r Cyngor fod y cais dan sylw yn gais am amodau i ail-ddechrau cloddio, ar ganiatad cynllunio sydd yn bodoli yn barod ar y safle ac yn parhau i fod yn ddilys. Dywedodd fod dipyn o ymateb yn ol wedi bod o'r ymgynghoriad a bod pryderon wedi eu nodi gan wahanol asiantaethau am y swm, dyfnder y cloddio, priffryrdd, bywyd gwyllt. Datganodd y Cyngor bryder am effaith y gwaith ar boblogaeth leol – llwch, llygredd – a bod tai o fewn 30m i'r safle. Fe'n hysbyswyd y bydd y cais yn mynd o flaen pwyllgor cynllunio ar gyfer penderfyniad. Roedd y Cyngor yn gresynu nad fyddai'r cwmni wedi cysylltu a thrafod gyda'r gymuned yn gyntaf cyn cyflwyno cais. Datganwyd pryder am effaith y llwch ar ysgyfaint plant a phobl. Dywedwyd bod 25 o blant yn trigo ar Ffordd Clynnog ar bwys y safle, a bod angen edrych ar gyfnodau gweithio y chwarel.

Roedd y Cyngor yn annog unigolion i edrych ar fanylion y cais yn aml ar wefan Cyngor Gwynedd er mwyn cael eu diweddarau ar unrhyw wybodaeth newydd ddaw i law. **on yn codi o'r cyn gofnodion.** Bocs graean ger yr eglwys yn Llanllyfni wedi ei symud.

Cynllunio.

*Cymeradwyo amodau er mwy ail-agor safle tywod a graean segur dan ganiatad dyddiedig 10/12/51. Y Cyngor yn gwrthwynebu ar sail traffic, swm, mynedfa.

*Tir ger Canolfan Yr Hen Orsaf, Ffordd yr Orsaf, Talysarn – adeiladu meithrinfa newydd. Cymeradwyo.

*Glasfryn, Nebo – dymchwel polytunnel a chodi sied dur. Cymeradwyo.

*Talymignedd Isaf, Nantlle – adeiladu storfa gwartheg a slyri. Cymeradwyo.

Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion i gwynion – Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd wedi gosod cyrbiau ym mynedfa'r cae yn Pont Lloc i geisio datrys y broblem o ddwr yn llifo drwy eiddo mewn cae ; gordyfiant ger y Quarrymans – Cyngor Gwynedd wedi cysylltu efo'r perchennog; tipio ar Lon Ddwr, Llanllyfni – wedi ei glirio; lloches bws Bro Silyn – Cyngor Gwynedd wedi codi archeb i ail-leoli'r lloches yn ol ym Mro Silyn; Sbwriel Ffordd Nantlle – wedi ei glirio; gwydrau ar lon Talysarn i Tyrpeg – wedi ei glirio, ond mwy o wydrau yno eto. Awgrymu bod y ffordd yma yn cael ei glanhau fel rhan o raglen gwaith y Cyngor; gwyneb lon Nebo – Cyngor Gwynedd wedi cysylltu efo'r contractiwr i drefnu i glirio'r cerrig man a threfnu bod y diffygion yn cael eu gwella; Trem yr Wyddfa – gwaith cynnal a chadw yn cael ei raglennu ar gyfer y flwyddyn ariannol yma; Goleuadau traffic Heol y Dwr, Penygroes – yn ol yn eu lle.

*Materion parcio Llanllyfni. Derbyniwyd llythyr gan Colin o Gyngor Gwynedd – byddwn yn ei wahodd i gyfarfod mis Mehefin/Gorffennaf.

Gwefan Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn y broses o sefydlu gwefan.

Materion Pentrefi. Arolwg Tai Dyffryn Nantlle – er yr holl ymdrechion hysbysebu'r arolwg, doedd dim llawer o ffurflenni wedi mynd allan. Wedi ail-ystyried y sefyllfa, pderfynwyd argraffu ffurflenni ychwanegol, fel bod y Cyngorwyr yn gallu eu dosbarthu i dai'r pentrefi; Penygroes ffordd Cae Efa Lwyd – Derbyniwyd cwyn fod dim lle pasio ar y lon o Allt Goch i Pontllyfni, tractors a trelars yn cael eu dal gan bod ceir yn methu bagio. Byddwn yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd i holi os oes posib gweithredu i gael lle pasio ychwanegol ar y lon;

Drych ar gyfer mynedfa Ffordd Clynnog o'r B4418 – y drych wedi ei dorri, byddwn yn gofyn am wydr newydd;

Talysarn Clo wedi diflannu wrth ymyl y llyn – giat wedi plygu hefyd – byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd fynd yno i edrych; Clo wedi ei roi ar giat Tyn Weirglodd llwybr 50 (Bro Silyn) – byddwn yn gofyn i'r Swyddog Llwybrau fynd yno i edrych; Datblygiadau Chwarel Dorothea a Sgwar Petris – byddwn yn holi beth sy'n digwydd;

Llanllyfni Gylis wedi blocio ar yr allt yn Llanllyfni – byddwn yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt archwilio a glanhau lle bo angen.

Llwybrau a Mynwentydd. Cwyn am goed celyn ym mynwent St Rhedyw. Byddwn yn trefnu iddynt gael eu tynnu; Arwydd llwybr 76 wedi diflannu; Giat ar llwybr Glanyrafon, Pont Lloc wedi ei chlymu, a dim posib mynd at y llwybr, hefyd camfa ar goll ar yr un llwybr; Llwybr 64 trwy goedwig Pont Lloc – coed wedi disgyn yn rhwystr ar y llwybr.